



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

Ffôn: Tel: 01267 226440
Ffacs: Fax: 01267 226448
E-bost: Email: opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk



**COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER**

Y Gwir Anrhydeddus Priti Patel AS
Ysgrifennydd Cartref
2 Marsham Street
Llundain
SW1P 4DF

7 Ebrill 2021

Parth: Pa mor effeithiol mae'r heddlu'n ymdrin â phrotestiadau

Annwyl Ysgrifennydd Cartref

Ysgrifennaf mewn perthynas â'r adroddiad y sonnir amdano uchod, sy'n cael ei groesawu gennyf i a'r Prif Gwnstabl Claire Parmenter.

Mewn perthynas â'r argymhelliad cyntaf, sef bod Prif Gwnstabiliaid yn sicrhau bod timoedd gwasanaethau cyfreithiol yn tanysgrifio i grŵp Cymdeithas Cyfreithwyr Heddlu Hwb Gwybodaeth y Coleg Plismona, mae'n dda gennyf ddweud bod hyn wedi'i gwblhau ymhell cyn y terfyn amser a bennwyd. Yn wir, mae adran gwasanaethau cyfreithiol Heddlu Dyfed-Powys wedi tanysgrifio i hyn ers mis Mawrth 2020, ac mae'n cael ei ddefnyddio'n wythnosol er mwyn rhannu a nodi arfer gorau.

Mewn perthynas â'r ail argymhelliad, yr wyf wedi fy sicrhau bod proses ôl-drafod gynhwysfawr mewn grym ar gyfer pob digwyddiad, a gydlynir yn ganolog ac a reolir gan yr adran gweithrediadau arbenigol. Mae hyn yn sicrhau y dysgir gwersi ar lefel leol yn ogystal â chael eu bwydo i mewn i ddysgu cenedlaethol; er enghraifft, arweiniodd ôl-drafodaeth yn dilyn digwyddiad mewn purfa leol yn 2018 at offer a hyfforddiant uwch ar gyfer Timoedd Chwalu Protestiadau ledled yr ardal Heddlu.

Medraf gadarnhau bod yr Heddlu'n cyflwyno'r ffurflenni Adolygu Dysgu yn Dilyn Digwyddiad Cenedlaethol i Ganolfan Gydlyn Genedlaethol yr Heddlu, ac rwyf wedi gweld un cyflwyniad o'r fath yn ddiweddar ar gyfer protest/gwylnos yn un o'r Unedau Rheoli Sylfaenol yng ngorllewin yr ardal Heddlu. Bydd ffurflen arall yn cael ei chyflwyno cyn hir er mwyn rhannu'r dysgu o'r digwyddiadau proffil uchel diweddar o gwmpas gwerysll y Swyddfa Gartref ar gyfer ffoaduriaid ym Mhenalun.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn golygu oediad.

We welcome correspondence in Welsh and English. Corresponding in Welsh or English will not lead to a delay.

web www.dyfedpowys-pcc.org.uk **twitter** [DPOPCC](https://twitter.com/DPOPCC) **facebook** [dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner](https://www.facebook.com/dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner)
gwefan www.dyfed-powys.pcc.police.uk **trydar** [DPOPCC](https://www.dpopcc.gov.uk) **facebook** [dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner](https://www.facebook.com/dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner)

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

Ffôn: Tel: 01267 226440
Ffacs: Fax: 01267 226448
E-bost: Email: opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk



**COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER**

Hyderaf fod yr uchod yn rhoi sicrwydd ynghylch y trefniadau sydd mewn grym o fewn yr Heddlu ar gyfer rheoli a thrafod protestiadau. Wrth gwrs, byddaf yn ceisio diweddariadau cynnydd parhaus gan y Prif Gwnstabl Parmenter a'i huwch dîm rheoli i'm galluogi i gyflawni fy swyddogaeth o graffu ar effeithiolrwydd trefniadau trin protestiadau yn ardal Dyfed-Powys.

Mae copi o'r ymateb hwn ar gael ar fy [ngwefan](#).

Yr eiddoch yn gywir

Dafydd Llywelyn
Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Copi at: AEM Wendy Williams

Y Prif Gwnstabl Claire Parmenter

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn golygu oediad.

We welcome correspondence in Welsh and English. Corresponding in Welsh or English will not lead to a delay.

web www.dyfedpowys-pcc.org.uk **twitter** DPOPCC **facebook** [dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner](https://www.facebook.com/dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner)
gwefan www.dyfed-powys.pcc.police.uk **trydar** DPOPCC **facebook** [dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner](https://www.facebook.com/dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner)